Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# St David's College

Llandudno
Conwy
LL30 1RD

**Dyddiad yr arolygiad: Medi 2025**

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â St David's College

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | St David's College |
| Statws y perchennog | Cwmni cyfyngedig preifat â statws elusennol |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Annibynnol |
| Darpariaeth breswyl? | Nac oes |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 257 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 180 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw’n berthnasol) | 23/01/2025 |
| Dyddiad dechrau’r arolygiad | 29/09/2025 |

**Cyd-destun yr ysgol**:

Mae St David’s College yn ysgol ddydd a phreswyl gydaddysgol annibynnol sy’n addysgu disgyblion rhwng 9 ac 19 oed. Mae’r ysgol wedi’i lleoli ychydig i’r de o Landudno yng Ngogledd Cymru.

Agorwyd yr ysgol ym 1965 yn elusen addysgol a sefydlwyd trwy weithred ymddiriedolaeth, i ddarparu addysg uwchradd o fewn fframwaith Cristnogol. Cenhadaeth yr ysgol yw ‘datblygu’r person cyfan trwy addysg eang yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol, dewis eang o ddiddordeb a gweithgarwch, a rhaglen bersonol gyflawnadwy ar gyfer pob disgybl’.

Mae 257 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, y mae 73 ohonynt yn ddisgyblion preswyl, a 77 yn y chweched dosbarth. Mae gan ryw un o bob pum disgybl gynllun datblygu unigol (CDU) neu gynllun addysg, iechyd a gofal (CAIG). Mae’r ysgol wedi’i chofrestru gyda Llywodraeth Cymru i addysgu disgyblion â chyflwr y sbectrwm awtistig (CSA), anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) ac anawsterau dysgu penodol (ADP).

Dechreuodd y pennaeth presennol yn ei swydd ym mis Hydref 2017.

Cynhaliwyd yr arolygiad monitro diwethaf ym mis Tachwedd 2023, a derbyniodd yr ysgol arolygiad â ffocws ym mis Ionawr 2025.

## Crynodeb

Mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi yn St David's College. Mae staff yn datblygu perthnasoedd cryf a chadarnhaol â disgyblion, sy'n cefnogi ethos teuluol yr ysgol. Mae disgyblion yn gwrtais, yn barchus ac yn cyfathrebu'n hyderus â chyfoedion, athrawon ac ymwelwyr. Ar draws yr ysgol, maent yn dangos medrau cymdeithasol da ac yn gweithio'n gefnogol gydag eraill. Mae disgyblion yn cyfrannu'n gadarnhaol at fywyd yr ysgol trwy'r cyngor ysgol.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ym mhob cyfnod. Yn y sector cynradd, maent yn gwrando'n astud, yn ymgysylltu'n ddychmygus â storïau, ac yn dechrau gwneud rhagfynegiadau a chysylltiadau. Mae eu hysgrifennu'n datblygu trwy dasgau estynedig, fel adroddiadau am ymweliadau hanesyddol. Caiff medrau mathemategol eu datblygu'n briodol, ac mae disgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau corfforol, gan feithrin cydsymud a gwaith tîm.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn ymestyn eu gwybodaeth bynciol trwy drafod, holi a thasgau ymarferol, tra bod llafaredd, yn enwedig mewn ieithoedd modern, yn gryfder. Erbyn cyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol annibynnol a gyda chywirdeb, yn ymateb yn ystyriol i lenyddiaeth, ac yn cymhwyso medrau meddwl beirniadol, fel dadansoddi ffynonellau hanesyddol. Mae dealltwriaeth fathemategol yn gadarn, ar y cyfan, ac mae disgyblion mwy abl yn dangos rhesymu algebraidd cryf. Yn y chweched dosbarth, mae dysgwyr yn dangos meistrolaeth well o bynciau, yn datblygu ysgrifennu estynedig a darllen beirniadol, ac yn cymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r cwricwlwm yn eang a chytbwys, gyda darpariaeth arloesol fel addysg yn yr awyr agored a rheoli anifeiliaid. Mae addysgu'n gryf, ar y cyfan, wedi'i nodweddu gan ddisgwyliadau uchel ac amgylcheddau dysgu cadarnhaol, er bod adborth i ddisgyblion yn anghyson o ran ansawdd. Mae ystod eang o ymyriadau yn cefnogi anghenion dysgu unigol yn dda.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr wedi ymrwymo i dwf yr ysgol, ond mae diffyg trylwyredd mewn sicrhau ansawdd a hunanwerthuso. Cryfhawyd arferion diogelu trwy brosesau gwell, staffio ehangach a chydweithio allanol cryfach.

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024, sy'n ofynnol i gynnal ei chofrestriad.

## Prif werthusiad

Mae St David’s College yn gymuned anogol lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn cael eu parchu. Mae staff addysgu a staff cymorth yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a pharchus â disgyblion, sy’n helpu meithrin ethos teuluol cryf yr ysgol.

Mae disgyblion yn dangos medrau cymdeithasol cryf, yn gweithio’n dda gyda’u cyfoedion, yn cyfathrebu’n gwrtais, yn gofyn am gymorth, ac yn cynnig cymorth yn briodol. Maent yn groesawgar ac yn barchus tuag at ymelwyr i’r ysgol.

### Cynnydd Disgyblion

### Cynradd

Mae bron pob un o’r disgyblion o oedran cynradd yn gwrando’n astud ac yn ymateb yn gywir i gwestiynau. Er enghraifft, wrth gysylltu stori Buddug â’u gwybodaeth flaenorol am y cyfnod hanesyddol hwn a stori Gwenllian. Hefyd, mae’r disgyblion hyn yn dangos camau cynnar i allu gwneud rhagfynegiadau a chysylltiadau. Gallant ragweld beth allai ddigwydd nesaf yn y stori ar sail eu dychymyg a’u gwybodaeth.

Mae gwaith disgyblion mewn pynciau fel Saesneg, hanes a chelf yn dangos tystiolaeth o ysgrifennu estynedig cywir, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad am ymweliad â chastell lleol. Mae’r gwaith hwn yn cefnogi datblygiad gwybodaeth a medrau pwnc yn y meysydd cwricwlwm hyn.

Mae sesiynau un i un arbenigol yn canolbwyntio ar ffoneg a ffurfio geiriau, ac yn sicrhau bod gan ddisgyblion sylfaen gref wrth iddynt sillafu a dadgodio geiriau anghyfarwydd. Mae sesiynau lleferydd ac iaith targedig yn helpu disgyblion i fynegi perthnasoedd achos ac effaith ar lafar, gan gryfhau eu medrau esboniadol a rhesymu.

Mae medrau mathemategol disgyblion yn datblygu’n briodol, gyda ffocws ar waith rhif. Er enghraifft, gall disgyblion ym Mlwyddyn 6 dalgrynnu rhifau i’r 100, 1000, 10,000 agosaf yn gywir.

Yn eu gwersi addysg gorfforol, mae bron pob un o’r disgyblion yn datblygu eu medrau cydsymud yn dda. Maent hefyd yn datblygu eu gallu i weithio mewn amgylchedd tîm ac yn ennill gwerthfawrogiad o fuddion gweithgarwch corfforol.

### Uwchradd

Yng nghyfnod allweddol 3, mae llawer o ddisgyblion yn gofyn ac yn ateb cwestiynau yn hyderus, yn gwrando’n dda ar athrawon a’u cyfoedion, ac yn ymateb yn dda iddynt. O ganlyniad i gyfathrebu effeithiol, rhannu safbwyntiau a barn, maent yn dyfnhau eu

dealltwriaeth a'u gwybodaeth bynciol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu eu llafaredd yn dda; er enghraifft, mewn Sbaeneg, mae disgyblion yn datblygu o ddefnyddio geiriau sylfaenol i frawddegau byr yn hyderus.

Mae bron pob un o'r disgyblion ar draws ystod lawn y galluoedd yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn dosbarthiadau addysg gorfforol. Pan fo'n briodol, mae gan ddisgyblion dargedau dysgu unigoledig i gefnogi eu hymgysylltiad a chaffael medrau mewn chwaraeon tîm. Mewn dylunio a thechnoleg, mae disgyblion Blwyddyn 8 yn datblygu medrau medrusrwydd trwy dorri a ffeilio alwminiwm i baratoi ar gyfer creu daliwr cannwyll. Mae datblygiad medrau corfforol disgyblion yn gryfder yn yr ysgol.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae disgyblion yn datblygu eu medrau llafaredd trwy waith grŵp a thrafod, er enghraifft wrth nodi symbolaeth a chyd-destun o fewn drama Shakesperaidd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos y gallu i ysgrifennu at ddibenion lluosog ar draws y cwricwlwm. Mewn gwersi Saesneg, mae bron pob un o'r disgyblion yn ysgrifennu at ystod o ddibenion, o anodi cerdd i amlygu nodweddion allweddol y testun, i ysgrifennu stori estynedig. Mae disgyblion mwy abl yn darparu ymatebion ehangol, a disgyblion â medrau llythrennedd datblygol yn ymgysylltu â brwdfrydedd wrth ysgrifennu storïau estynedig. O ganlyniad i'w dyfalbarhad, mae disgyblion yn ysgrifennu ag annibyniaeth a chywirdeb cynyddol dros gyfnod.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn briodol ar draws ystod o bynciau. Mae disgyblion yn dangos eu bod yn dadansoddi ffynonellau yn ymarferol, er enghraifft trwy ddehongli cartŵn ar yr 'ymgiprys am Affrica' ('scramble for Africa') gan nodi tarddiad a holi am ddibynadwyedd. Mewn sesiynau un i un arbenigol, mae disgyblion yn cryfhau eu medrau meddwl trefniadol a lefel uwch. Gyda chymorth, gall y disgyblion hyn gynllunio a strwythuro traethodau estynedig. Mae llawer o'r disgyblion hyn yn ymgymryd yn dda â thasgau sgwrsio strwythuredig.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol hŷn yn dangos medrau gweithdrefnol cadarn mewn mathemateg, ar y cyfan; mae cywirdeb yn amrywio ymhlith unigolion yn unol â'u gallu. Mae disgyblion mwy abl yn dangos dealltwriaeth sylfaenol gref o algebra ac yn esbonio'u rhesymu'n hyderus, gan eu galluogi i ddatrys problemau cynyddol gymhleth. Mae disgyblion yn defnyddio geirfa fathemategol dra-chywir, fel cwadratigion a hafaliadau llinol, yn briodol i gefnogi eu dealltwriaeth gysyniadol a'u cynrychiolaeth weledol o syniadau algebraidd.

## Ôl-16

Yn y chweched dosbarth, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos meistrolaeth gynyddol o feysydd pwnc, yn cynnwys llythrennedd academaidd ar gyfer arholiadau a'r gallu i gymhwyso dysgu i wahanol gyd-destunau. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth

ddyfnach trwy ysgrifennu estynedig, darllen beirniadol, dadansoddi, golygu ac ailddrafftio. Mewn sesiynau Saesneg fel iaith ychwanegol, mae disgyblion yn dysgu sut i wahaniaethu rhwng iaith ffurfiol ac anffurfiol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn disgrifio’u cyfrifiadau mathemategol mewn camau rhesymegol, gan gryfhau eu rhesymu mathemategol ac yn cymhwyso’r rhain yn effeithiol mewn pynciau eraill fel ffiseg.

Yn ychwanegol, mae disgyblion hŷn sy’n gweithio tuag at eu cymhwyster hyfforddi chwaraeon yn cynorthwyo disgyblion iau i ddatblygu eu medrau corfforol tra’n datblygu eu medrau arwain eu hunain.

## Lles Disgyblion

Mae disgyblion yn dylanwadu ar waith yr ysgol trwy’r cyngor ysgol a’r system cynrychioli dosbarthiadau. Mae llawer o ddisgyblion yn gwerthfawrogi’r cyfle i roi newid ar waith yn yr ysgol, er enghraifft ehangu ystod y chwaraeon sydd ar gael yn y sesiwn gweithgareddau i gynnwys saethyddiaeth. Mae llawer o ddisgyblion yn hyderus am y prosesau ar gyfer ysgogi newid yn yr ysgol.

Yn ddiweddar, diwygiodd yr ysgol ei hymagwedd at reoli ymddygiad disgyblion. Mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant i staff addysgu ar effaith trawma a’u gweledigaeth ar gyfer cymorth ymddygiad cadarnhaol. Mae’r newid hwn wedi cael ei roi ar waith yn ddiweddar iawn, ac mae’n rhy gynnar i werthuso’i effaith.

Mae’r ysgol yn darparu ystod eang o gymorth ac ymyriadau i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae hyn yn cynnwys nyrsys ysgol, cymorth cwnsela, tîm anghenion dysgu ychwanegol (ADY), athrawon arbenigol, therapi lleferydd ac iaith a therapi galwedigaethol. Mae’r aelodau staff hyn yn cydweithio’n effeithiol. Maent yn datblygu dealltwriaeth drylwyr o anghenion unigol disgyblion ac yn defnyddio hyn i gynllunio ymyriadau perthnasol. Er enghraifft, caiff disgyblion eu cynorthwyo i wella’u medrau sillafu, lleferydd ac iaith, eu medrau trefnu a’u medrau motor. Mae’r aelodau staff hyn yn adolygu cynnydd disgyblion yn yr ardaloedd hyn yn rheolaidd ac yn defnyddio’r wybodaeth hon i gynllunio’u camau nesaf.

Ers adeg yr ymweliad â ffocws ym mis Ionawr 2025, mae arweinwyr wedi cymryd ystod o gamau addas i gryfhau arferion diogelu yn yr ysgol. Ehangwyd y tîm diogelu i gynnwys mwy o staff o ardaloedd allweddol o’r ysgol, yn cynnwys staff preswyl a staff meddygol. Caiff pryderon ynghylch diogelu eu cofnodi’n gywir, ac mae’r tîm hwn yn ymateb iddynt mewn modd amserol.

Yn ychwanegol, mae arweinwyr diogelu wedi gwneud cynnydd cadarn tuag at y targedau yn eu cynllun gweithredu, gan wneud gwelliannau mewn meysydd diogelu

pwysig. Er enghraifft, mae'r ysgol bellach yn gwerthuso dealltwriaeth staff o hyfforddiant, wedi cryfhau'r cymorth a'r her gan y llywodraethwr diogelu enwebedig, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng y tîm diogelu ehangach i drafod tueddiadau ac anghenion diweddar. Mae'r tîm diogelu'n defnyddio'r wybodaeth a gesglir trwy'r prosesau hyn i lywio darparu hyfforddiant defnyddiol ar gyfer staff, disgyblion a rhieni.

Mae'r tîm diogelu yn dechrau cydweithio â phartneriaid, fel y bwrdd diogelu lleol, awdurdodau lleoli a byrddau iechyd i werthuso a chryfhau arfer yn yr ysgol. Er enghraifft, maent wedi elwa ar ddysgu proffesiynol buddiol mewn meysydd pwysig fel radicaleiddio.

## Cwricwlwm

Mae St David's College yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys. Mae ystod yr opsiynau ar Lefel 2 a Lefel 3 yn amrywiol, gan gynnwys medrau swyddogaethol mewn mathemateg, y celfyddydau perfformiadol, rheoli anifeiliaid a dysgu yn yr awyr agored. Mae'r pynciau opsiynol sydd ar gael i ddisgyblion bob blwyddyn yn amrywio, yn dibynnu ar anghenion pob carfan.

### Ciplun 1: Dysgu yn yr awyr agored

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi eu cyfranogiad yn rhaglen addysg awyr agored yr ysgol yn fawr, sy'n cynnwys gweithgareddau fel cerdded mynyddoedd, caiacio, byw yn y gwyllt a hwylio. Mae disgyblion yn datblygu gwydnwch, penderfyniad a hyder cryf trwy gymryd rhan yn y maes cwricwlaidd arloesol hwn. Maent yn cryfhau eu medrau cyfathrebu a gwaith tîm yn llwyddiannus ac yn siarad am brofiad ysbrydol bod yn yr amgylchedd ffisegol. Mae disgyblion yn adnabod manteision y gweithgareddau hyn sy'n eu gwthio'r tu hwnt i'w mannau cyfforddus. Ar ôl dechrau addysg awyr agored ym Mlwyddyn 5, mae'r rhaglen yn gorffen gydag alldaith ym Mlwyddyn 10. Gellir cynnal yr alldaith hon yn y Deyrnas Unedig neu'r tu hwnt, e.e. dringo rhew yn Norwy neu drecio ym Morocco. Mae alldeithiau'n cael eu harwain gan ddisgyblion ac yn eu paratoi ar gyfer heriau  oedolaeth.

### Ciplun 2: Hwsmonaeth anifeiliaid

Un o nodweddion arloesol pellach y cwricwlwm yw'r cwrs rheoli anifeiliaid a gynigir ar Lefel 3. Mae'r ddarpariaeth hon wedi ymateb i awydd penodol gan ddisgyblion i gwblhau cwrs yn seiliedig ar wyddoniaeth gyda ffocws ar anifeiliaid. Mae'r adran hwsmonaeth anifeiliaid, sy'n cynnwys offer da, hefyd yn cefnogi addysgu gwyddoniaeth gymhwysol BTEC ar Lefel 2 a sesiynau gweithgarwch disgyblion a gynigir o Flwyddyn 5 ar draws yr ysgol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi lles disgyblion, yn ogystal â darparu cyfle i ddatblygu eu hastudiaethau academaidd ymhellach.

## Effaith yr addysgu

Ar draws yr ysgol, mae gan bob un o'r staff berthnasoedd gwaith eithriadol o gadarnhaol â disgyblion ac yn gwybod yn dda am eu hanghenion dysgu, a'u hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Bron ym mhob gwers, mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu digynnwrf a diogel, er enghraifft trwy ddefnyddio cerddoriaeth neu osod rheolau'r dosbarth cyn trafod mater sensitif. Mae disgwyliadau uchel a rheolaeth ddosbarth gref yn sicrhau bod disgyblion yn barchus at ei gilydd ac yn arddangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu. Mae athrawon yn arddangos gwybodaeth bynciol gref. Mae hyn yn eu galluogi i ymateb yn dda i gwestiynau disgyblion ac yn eu galluogi i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach. Mae staff addysgu'n ymateb yn sensitif i gamdybiaethau ac yn gweithio gyda'r disgybl i gywiro'r rhain. Yn y gwersi un i un gydag athrawon cymorth arbenigol, mae staff yn ymateb i anghenion yr unigolyn yn hynod fedrus ac yn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud o fan cychwyn y disgybl.

Pan mae'r addysgu'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu, mae llawer o athrawon yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau bod gweithgareddau'n ddiddorol ac yn adeiladu ar ei gilydd. Er enghraifft, defnyddio gêm fwrdd i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion iau o dalgrynnu rhifau neu ddatblygu dulliau arloesol yn seiliedig ar ymchwil, i ddatblygu lefelau medrau disgyblion mewn addysg gorfforol. Mae llawer o athrawon, yn enwedig wrth addysgu disgyblion hŷn, yn defnyddio cwestiynau agored yn effeithiol i ymestyn a chadarnhau dealltwriaeth disgyblion. Mae llawer o athrawon yn modelu'r deilliannau y maent yn eu disgwyl gan ddisgyblion yn llwyddiannus, er enghraifft mewn gwers dylunio a thechnoleg wrth greu cynnyrch o alwminiwm, neu mewn hanes neu Saesneg wrth fodelu ymatebion i gwestiynau arholiad.

Yn y gwersi prin lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, mae lefelau is o ymgysylltiad gan ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, ni chaiff gweithgareddau eu haddasu i anghenion y disgybl yn ddigon da. Yn ychwanegol, mewn ychydig o wersi, nid yw athrawon yn monitro gweithgareddau disgyblion yn agos ac felly nid ydynt bob amser yn cywiro camgymeriadau neu wallau ar y pryd.

At ei gilydd, mae ansawdd yr adborth i ddisgyblion yn rhy amrywiol. Mewn ychydig o bynciau, mae adborth athrawon yn fanwl iawn ac yn rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar gyfer eu camau nesaf mewn dysgu. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae adborth gan athrawon yn rhy ddisgrifiadol ac nid yw'n cynorthwyo disgyblion i symud eu dysgu ymlaen.

## Arwain a Gwella

Mae arweinwyr ar bob lefel o'r ysgol wedi ymrwymo i gefnogi ethos St David's College. Maent yn gweithio'n galed i gefnogi gweledigaeth yr ysgol i fod yr '*ysgol breswyl fach orau yng Nghymru'*. Mae arweinwyr ar draws yr ysgol yn adnabod y disgyblion a'u diddordebau a'u hanghenion unigol yn dda.

Yn ddiweddar, estynnwyd capasiti arwain ar lefel uwch trwy benodi pennaeth cynorthwyol ychwanegol ar gyfer darpariaeth breswyl. Mae'n rhy gynnar i werthuso effaith yr ailstrwythuro hwn.

Mae perthnasoedd gwaith proffesiynol rhwng yr ysgol, y rhieni a'r gofalwyr yn gryf. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ffocws cryf yr ysgol ar empathi, hunan-barch, parch at bobl eraill a datblygu medrau disgyblion mewn arweinyddiaeth a gwydnwch.

Mae athrawon yn ymgymryd â dysgu proffesiynol defnyddiol i ymestyn eu gwybodaeth am sut i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Er enghraifft, gall staff addysgu ennill cymwysterau mewn dyslecsia a/neu dyscalcwlia. Mae hyfforddiant ysgol gyfan diweddar wedi canolbwyntio ar feysydd priodol, fel datblygu dull sy'n ystyriol o drawma. Fodd bynnag, mae diffyg goruchwyliaeth drylwyr o ran sut mae datblygiad proffesiynol, gan gynnwys ar gyfer staff cymorth, yn cysylltu â blaenoriaethau'r ysgol.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli perfformiad staff wedi'u datblygu'n ddigonol ac nid ydynt yn cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau ysgol gyfan. Anaml y mae targedau rheoli perfformiad yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion ac nid oes meini prawf llwyddiant penodol a mesuradwy.

Mae diffyg trylwyredd ym mhrosesau'r ysgol ar gyfer sicrhau ansawdd. O ganlyniad, mae gan yr ysgol olwg anghyflawn ar gynnydd disgyblion a dealltwriaeth anghywir o ofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Ni chaiff meysydd i'w datblygu sy'n deillio o hunanwerthuso eu nodi'n ddigon penodol nac yn ddigon manwl gywir i ffurfio sail cynllunio gwelliant ysgol effeithiol, ar lefel adrannol ac ysgol gyfan. Hefyd, nid yw systemau a phrosesau yn yr ysgol yn cynorthwyo arweinwyr i werthuso meysydd cydymffurfio a hunanwerthuso yn effeithiol. Mae cynnydd yr ysgol yn erbyn argymhellion a adawyd yn yr arolygiad craidd yn 2019 wedi bod yn gyfyngedig.

Mae'r corff llywodraethol yn ymroddgar ac wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad a thwf parhaus yr ysgol. Mae'r llywodraethwr diogelu yn gweithio'n agos gyda'r unigolyn diogelu dynodedig i ddarparu her gefnogol a gweithredu fel ffrind beirniadol. Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o faterion staffio ac ariannol yr ysgol.

Fodd bynnag, nid yw eu dealltwriaeth o ansawdd yr addysgu a'r dysgu, cynnydd disgyblion a'u dyletswyddau statudol, mor gadarn. Er bod llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol a'r pennaeth, nid ydynt wedi darparu digon o her i'r uwch dîm arweinyddiaeth yn y meysydd allweddol hyn.

Codwyd ychydig o faterion gydag arweinyddiaeth yr ysgol yn ystod yr arolygiad yn ymwneud â chryfhau'r polisi i adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth Cymru. Cwblhawyd y gwaith hwn yn briodol. Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth i awgrymu nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024.

## Cydymffurfio â'r rheoliadau ar gyfer cofrestru

Caiff arolygiadau ysgolion annibynnol eu llywodraethu gan Ddeddf Addysg 2002 a rheoliadau cysylltiedig: Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mae'r rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ysgol annibynnol fodloni safon briodol yn y meysydd canlynol:

### Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Eiddo a llety preswyl mewn ysgolion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Darparu gwybodaeth

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

### Y modd yr eir i'r afael â chwynion

Ar sail yr arolygiad hwn, nid oes tystiolaeth nad yw'r ysgol yn cydymffurfio â'r safon hon.

## Diogelu

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1. Gwella trylwyredd ac ansawdd prosesau hunanwerthuso ar bob lefel i sicrhau gwelliant ysgol effeithiol

A2. Cryfhau llywodraethu i ddarparu her a chefnogi blaenoriaethau gwella'r ysgol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Estyn yn cynghori'r perchennog i ddiwygio'i gynllun datblygu presennol i ddangos pa gamau y mae'r ysgol yn bwriadu eu cymryd i ymateb i'r argymhellion. Hefyd, byddai'n ddoeth dosbarthu'r cynllun hwn, neu grynodeb ohono, i'r holl rieni / gofalwyr yn yr ysgol.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni / gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a’r staff cymorth trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr / perchnogion, arweinwyr ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â gwersi ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi dysgu’r disgyblion
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol (lle bo’n briodol), gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag adran 163 Deddf Addysg 2002. Prif ddiben arolygu o dan yr adran hon yw adrodd ar gydymffurfio â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2024. Mewn ysgolion sy’n darparu addysg feithrin nas cynhelir, mae’r adroddiad hwn hefyd yn bodloni gofynion Atodlen 26 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 01/12/2025